Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN BWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosb Benodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Ystyriodd y Pwyllgor *Reoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosb Benodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007* yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y materion a ganlyn:

- a yw'r Rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau lleol roi cosb mewn perthynas â swn pobl?
- pam mae'r Rheoliadau'n pennu uchafswm ar gyfer dirwyon?
- sut fyddai'r cyhoedd yn rhoi gwybod i'r awdurdodau am lygredd swn o anheddau eu cymdogion ac a fyddai'n bosibl herio cosb benodedig yn y llys?

Cafwyd yr atebion a ganlyn gan y Gweinidog:

- nid yw cwmpas y Rheoliadau'n cynnwys swn pobl, maent yn delio â chosb benodol ar gyfer rhai troseddau amgylcheddol penodol yn unig.
- mae ystod y cosbau penodedig a ragnodir gan y Rheoliadau hyn yn wahanol i'r rheini sy'n weithredol yn Lloegr.
- mae Deddf Swn 1996 yn ymdrin â chosbi pobl am droseddau'n ymwneud â swn o anheddau ac â'r ddiffiniad o swn.
- mae'n arferol i Reoliadau bennu uchafswm ar gyfer dirwyon. Pe bai gan awdurdodau lleol bwerau i bennu eu huchafsymiau eu hunain gallai arwain at rai achosion yn mynd i'r Llys Ynadon.
- byddai gan gynghorau cymuned yr awdurdod i roi hysbysiad cosb benodedig a byddai'n bosibl herio cosb benodedig yn y llys.

Croesawodd y Pwyllgor y Rheoliadau hyn gan gymeradwyo y dylid cymeradwyo *Rheoliadau Troseddau Amgylcheddol (Cosb Benodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007* heb unrhyw newidiadau.

Glyn Davies AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad